cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund



# Cronfa Bensiynau Clwyd

# Polisi Ansawdd Data

Mawrth 2025

## Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad....3
Nodau ac Amcanion....3
Datganiad Cenhadaeth....3
Nodau ac Amcanion Ansawdd Data....3
Gofynion Deddfwriaethol a Chanllawiau....4
Data sy'n cael ei gynnwys yn y Polisi hwn....5
Rheolyddion mewnol effeithiol....6
Diogelwch ac amddiffyn data'r cynllun....7
Sut rydym yn anfon data'n ddiogel....7
Sut rydym yn derbyn data'n ddiogel....8
Cyflogwyr a darparwyr cyflogau....8
Aelodau'r Cynllun....8
Darparwyr gwasanaeth trydydd parti....9
Cadw Data....9
Diogelu data'n ymwneud â gwybodaeth a rennir â chyflogwyr....9
Sicrhau data amserol ac o ansawdd da....9
Cyflogwyr a darparwyr cyflogau....9
Aelodau'r cynllun....9
Gweithio gyda darparwyr trydydd parti....10
Monitro ac adolygu data: gweithgareddau glanhau data....12
Mesur y Gronfa yn erbyn amcanion y Polisi....17
Cynllun Gwella Data....18
Risgiau Allweddol....19
Adrodd....19
Cymeradwyo, adolygu ac ymgynghori....20
Rhagor o Wybodaeth....20
Atodiad A: Rheolyddion data....21
Atodiad B: Polisi Cadw Data Personol....22

# Cyflwyniad

Dyma Bolisi Ansawdd Data Cronfa Bensiynau Clwyd (“y Gronfa”).  Mae’r Polisi’n amlinellu ein prosesau a gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod ein data o ansawdd uchel a’i fod yn parhau felly. Fe’i datblygwyd yn dilyn ymgynghori â gweithwyr yn y Gronfa, aelodau’r Bwrdd Pensiwn a budd-ddeiliaid eraill sydd â diddordeb.

Mae Cyngor Sir y Fflint (yr “Awdurdod Gweinyddu” neu’r “Corff Llywodraethu” yn y ddogfen hon)  yn gyfrifol am weinyddiaeth leol y Gronfa, sy’n rhan o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (“y CPLlL”).  Mae’r Gronfa yn cynnwys tua 52 o gyflogwyr gydag aelodau gweithredol, ac oddeutu 52,000 o aelodau’r cynllun (gan gynnwys aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr a’u dibynyddion).

Mae’r Polisi hwn yn cyd-fynd â’n Strategaeth Weinyddu Pensiynau, sy’n amlinellu ein dull cyffredinol o ddarparu’r safon uchaf o weinyddu. Un o amcanion allweddol ein Strategaeth Weinyddu, sy’n cael ei llywio gan y prif ofynion cyfreithiol, yw talu’r buddion cywir i’r bobl gywir ar yr amser cywir. Mae data o ansawdd uchel yn ofyniad hanfodol i fodloni’r amcan hon, yn ogystal â galluogi’r cyfrifiadau cywir o rwymedigaethau’r Gronfa i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.

Mae’r Polisi yn nodi ein dull o amddiffyn, cael, monitro ac adolygu data ein cynllun pensiwn.

# Nodau ac Amcanion

## Datganiad Cenhadaeth

Datganiad Cenhadaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yw:

- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth rhagorol sy’n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy’n gredadwy, i'n holl gwsmeriaid
- meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth o risg a llywodraethu ariannol, a darparu gwasanaethau nodedig o’r safon uchaf o fewn ein hadnoddau
- gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion gydag ymagwedd sy’n credu yn ein gallu i gyflawni

## Nodau ac Amcanion Ansawdd Data

Ein hamcanion allweddol o ran ansawdd data yw:

- sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw am aelodau a thrafodion i gynnal y nodau o sicrhau bod y buddion cywir yn cael eu talu i’r bobl gywir ar yr amser cywir, a bod rhwymedigaethau cyflogwyr yn cael eu cyfrifo’n gywir
- cael, storio, adolygu a throsglwyddo data’n ddiogel mewn ffordd sy’n effeithlon ac yn effeithiol o ran cost, gan ddefnyddio technoleg a phrosesau awtomatig yn briodol i gael gwerth am arian

- cydymffurfio â gweithdrefnau diogelu data, cadw cofnodion a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud ag ansawdd data yn ogystal â cheisio cadw at ganllawiau perthnasol megis y rheiny gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- sicrhau bod y rolau a chyfrifoldebau rhwng y Gronfa, cyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill o ran ansawdd data yn glir a'u bod yn cael eu deall
- dynodi a datrys problemau ansawdd data'n brydlon a sicrhau bod camau ataliol yn cael eu rhoi ar waith fel bod angen llai o weithgareddau glanhau data yn y dyfodol
- sicrhau bod prosesau rheoli data'n cael eu cofnodi'n glir a'u hadolygu'n rheolaidd.

Bydd y gweithgareddau  a amlinellir yn y Polisi hwn yn cefnogi'r Gronfa i gyflawni ei nodau Gweinyddol, a amlinellir yn y Strategaeth Weinyddu Pensiynau.

## Gofynion Deddfwriaethol a Chanllawiau

Mae nifer o ofynion deddfwriaethol y mae'n rhaid i ni gadw atynt o ran ansawdd data a chadw cofnodion, yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013
- Rheoliadau Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cadw Cofnodion a Diwygiadau Amrywiol) 2014
- Y Ddeddf Bensiynau (amrywiol) yn cynnwys 1995 a 2004
- Deddf Cyllid 2004
- Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweinyddiaeth y Cynllun) 1996
- Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013
- Rheoliadau Dangosfwrdd Pensiynau 2022[1]
- Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad a Ddargedwir (UE) 2016/679 (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU)
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Hefyd, mae ystod o ganllawiau'n ymwneud ag ansawdd data a chadw cofnodion ar gyfer cynlluniau pensiwn yn cynnwys:

- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau[2]: yn benodol, y modiwlau ar Gadw Cofnodion, Monitro Data a Gwella.
- Canllawiau PASA ar Gynlluniau Rheoli Data[3]

---

[1] Ar adeg llunio'r polisi hwn, mae gennym Brosiect Gweithredu Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol ar y gweill.  Mae'n canolbwyntio ar sefydlu'r systemau priodol a sicrhau bod ein data o ansawdd uchel ar gyfer cysylltu â'r eco system Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol cyn y byddant ar gael i'r cyhoedd.  Hyd yma (ar adeg llunio'r polisi hwn) nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r dyddiad.  Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu os oes angen i gynnwys gofynion pellach yn ymwneud â'r Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol pan fydd yn cael ei lansio.
[2] **TPR general (single) code of practice | The Pensions Regulator** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).
[3] **Data Management Plans Guidance – March 2021 – The Pensions Administration Standards Association** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

- Gofynion cysylltu a safonau dangosfyrddau pensiynau[4]

Wrth ddatblygu'r Polisi hwn a'i roi ar waith, byddwn yn sicrhau ein bod yn cadw at ofynion cyfreithiol ac yn ystyried canllawiau, gan flaenoriaethu'r meysydd hynny sydd â disgwyliadau uwch o ran cydymffurfiaeth (er enghraifft, Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau).

## Data sy'n cael ei gynnwys yn y Polisi hwn

Mae Rheoliadau Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cadw Cofnodion a Diwygiadau Amrywiol) 2014[5] yn nodi pa gofnodion sydd angen eu cadw gan gyrff llywodraethu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fel corff llywodraethu, mae'n rhaid i ni gadw cofnodion o:

- wybodaeth am aelodau'r cynllun a'u buddiolwyr (yn cynnwys elfennau megis enw, dyddiad geni, rhyw, cyfeiriad, rhif yswiriant gwladol a gwybodaeth benodol yn ymwneud â'u haelodaeth)
- trafodion (yn cynnwys cyfraniadau cyflogwyr ac aelodau, pensiwn a thaliadau buddion ac unrhyw asedau sy'n cael eu symud neu eu trosglwyddo i mewn ac allan o'r cynllun)
- Cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn (yn cynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfodydd, y rhai sy'n bresennol a'r penderfyniadau).

Amlinellir y gofynion pellach ym modiwlau Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau ar Gadw Cofnodion, Monitro Data a Gwella.

Fodd bynnag, mae'r data sydd ei angen i reoli'r Gronfa yn ymestyn y tu hwnt i'r gofynion hyn (er enghraifft, cofnodion yn ymwneud â'n cyfarfodydd eraill megis y Pwyllgor Cronfa Bensiwn).

Y ogystal â storio ein data, rydym hefyd yn derbyn ac yn anfon ein data at ystod o fudd-ddeiliaid yn cynnwys:

- Aelodau'r cynllun
    - Gweithredol
    - Gohiriedig
    - Pensiynwyr
    - Dibynyddion
    - Darpar
    - Buddiolwyr a chynrychiolwyr eraill
- Cyflogwyr y cynllun
- Pwyllgor Cronfa Bensiynau
- Bwrdd Pensiynau
- Staff y Gronfa Bensiynau

---

[4] Yn cynnwys, ymhlith eraill, canllawiau safonau'r Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau, canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gysylltu a Pholisi Cydymffurfiaeth a Gorfodi'r TPR.

[5] **The Public Service Pensions (Record Keeping and Miscellaneous Amendments) Regulations 2014** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

- Cynghorwyr y Gronfa Bensiynau
- Undebau Llafur
- Trethdalwyr lleol
- Aelodau'r cyhoedd
- Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB)
- Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)
- Adrannau'r Llywodraeth
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)
- Yr Adran Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Trysorlys Ei Fawrhydi
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Archwilio Cymru

Mae'r Polisi hwn yn ymwneud â'r holl ddata rydym yn ei storio, ei anfon a'i dderbyn, nid dim ond y data a nodir mewn deddfwriaeth yn unig.

Y cofnodion sydd gennym ar gyfer aelodau'r cynllun i weinyddu eu buddion yw mwyafrif helaeth ein data. Felly, er bod gofynion eraill yn ymwneud â data a chadw cofnodion (megis y rhai sy'n ymwneud a chadw cofnodion cyfarfodydd), mae pwyslais y Polisi hwn ar sut rydym yn cadw data o ansawdd uchel ynghylch yr aelodau.

## Rheolyddion mewnol effeithiol

Dan adran 249B Deddf Pensiynau 2004, mae'n ofynnol i ni sefydlu a gweithredu rheolyddion mewnol, sy'n addas at ddibenion sicrhau bod y Gronfa'n cael ei gweinyddu a'i rheoli'n unol â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill. O ran ansawdd data, ein rheolyddion mewnol yw'r systemau, gweithdrefnau a phrosesu rydym yn eu defnyddio i sicrhau ein bod yn bodloni amcanion y Polisi hwn, felly maent yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithredu. Mae gofyn i ni hefyd allu dangos i'r TPR ein bod yn gweithredu prosesau i gynnal cofnodion cywir a chyfredol at ddibenion cynnal y gronfa bensiynau.

Mae rhai o'r ffyrdd rydym yn sicrhau bod ein rheolyddion mewnol yn gadarn yn cynnwys:

- meddu ar staff pensiynau wedi'u hyfforddi'n addas
- sicrhau bod gan yr holl staff rolau a chyfrifoldebau clir yn cynnwys lefelau awdurdodi priodol
- mae'n rhaid i'n staff wneud hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu data personol a llywodraethu gwybodaeth
- caniateir i'n staff gael mynediad priodol at systemau (yn cynnwys systemau allanol e.e. porth llywodraeth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi) i gyflawni eu dyletswyddau ac mae'r mynediad hwnnw'n dod i ben pan fydd aelod o staff yn gadael y tîm. Mae hyn yn lleihau'r perygl o golli data'n ddamweiniol, camgymeriadau a gweithgarwch heb awdurdod
- mae data sy'n cael ei roi ar y system â llaw yn cael ei wirio gan aelod o staff ar wahân sydd â phrofiad addas

- mae'r holl gyfrifiadau buddion yn cael eu gwirio gan aelod o staff ar wahân sydd â phrofiad addas
- mae ein system weinyddol yn cynnwys prosesau llif gwaith i leihau'r risg o gamgymeriad dynol
- mae'r holl daliadau i mewn ac allan o'r Gronfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu neilltuo i'r ganolfan gostau gywir
- mae'r holl brosesau a gweithdrefnau mewnol allweddol yn cael eu cofnodi, ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn dal yn briodol
- mae ein prosesau rheoli'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan archwilio mewnol ac mae unrhyw gamau rheoli sydd eu hangen mewn cysylltiad â'r argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu monitro nes byddant wedi'u cwblhau
- darparu hyfforddiant priodol i gyflogwyr i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau

Mae mwy o wybodaeth yn nes ymlaen yn y Polisi hwn am ein ffyrdd amrywiol o fonitro ac adolygu ansawdd y data sydd gennym.

Mae gennym hefyd weithdrefn ar wahân ar gyfer Cofnodi ac Adrodd ar achosion o Dor-cyfraith / Talu Cyfraniadau'n Hwyr gan Gyflogwr, fydd angen eu defnyddio efallai os na fydd y rheolyddion mewnol uchod yn cael eu bodloni.

# Diogelwch ac amddiffyn data'r cynllun

Lluniwyd ein gweithdrefnau a'n rheolyddion (fel yr amlinellwyd eisoes yn y polisi hwn) i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Mae gennym hefyd ein Strategaeth Diogelwch Seibr ein hunain, sy'n cynnwys nifer o ofynion megis hyfforddiant i staff, canllawiau hylendid seibr ac asesiadau seibr rheolaidd ar gyflenwyr (yn cynnwys ein systemau TG).

## Sut rydym yn anfon data'n ddiogel

Rydym yn dilyn canllawiau diogelwch data Cyngor Sir y Fflint wrth anfon unrhyw ddata personol.

Y brif broses a ddefnyddiwn yw Egress Switch, sy'n cynnig cyfuniad o borth yn seiliedig ar bolisïau a meddalwedd amgryptio e-byst i ddiogelu a rheoli gwybodaeth a anfonir at drydydd partïon.  Mae Egress Switch hefyd yn defnyddio:

- proses ddilysu
- trefniadau diogelu cyfrinair, a
- chadarnhad o dderbyn e-byst

er mwyn atal unrhyw wybodaeth sensitif rhag cael ei hanfon yn ddamweiniol at unigolion heb awdurdod.

Mae ffyrdd eraill rydym yn eu defnyddio i anfon data'n ddiogel at ein sefydliadau partner rheolaidd a chyflenwyr/ymgynghorwyr yn cynnwys:

- uwchlwytho i byrth diogel ar gyfer rhai o'n cyflenwyr/ymgynghorwyr
- defnyddio cysylltiad diogel dwy ffordd Transport Layer Security.

O ran diogelwch data cyn lansio'r dangosfyrddau pensiwn, mae'n ofynnol i ni benodi Darparwr Gwasanaeth Integredig (ISP), sef darparwr trydydd parti sy'n gyfrifol am gysylltu data ein cynllun â'r ecosystem dangosfyrddau. Nid oes cronfa ddata ganolog o fewn yr ecosystem sy'n cadw gwybodaeth bersonol ac mae'r ecosystem yn gweithio fel switsfwrdd anferthol sy'n cysylltu defnyddwyr â'u pensiynau drwy ddangosfwrdd. Er mwyn bodloni gofynion diogelwch data'n ymwneud â dangosfyrddau pensiwn, rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data gan yr ISP cyn cysylltu â saernïaeth y dangosfyrddau, ac mae hyn wedi'i wneud gan ein ISP, Heywood. Amcan yr asesiad yw nodi, cyfathrebu a rheoli unrhyw risgiau i breifatrwydd sy'n ymwneud â chasglu neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol.

## Sut rydym yn derbyn data'n ddiogel

### Cyflogwyr a darparwyr cyflogau

Dull allweddol o drosglwyddo data sy'n ymwneud â gweinyddu'r Gronfa, yw derbyn gwybodaeth gan gyflogwyr mewn perthynas ag aelodau'r cynllun. Disgwylir i bob cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth sy'n cynnwys data personol sy'n cael ei hanfon atom yn cael ei hanfon yn ddiogel.

Er mwyn bodloni gofynion y Polisi hwn mewn ffordd ddiogel ac effeithlon, rydym yn defnyddio system ddata ddiogel o'r enw i-Connect ar gyfer ein cyflogwyr. Er ein bod yn disgwyl i bob cyflogwr ddefnyddio'r porth i-Connect i gyflwyno gwybodaeth, rydym yn cydnabod y bydd achlysuron pan fydd rhaid i gyflogwyr anfon gwybodaeth atom y tu allan i i-Connect (h.y. cyn i gyflogwr gael ei gadarnhau fel defnyddiwr i-Connect neu pan fydd angen gwybodaeth atodol). Yn yr achosion hyn, fel nad yw diogelwch yn cael ei beryglu, rydym yn disgwyl y bydd y wybodaeth hon yn cael ei hanfon yn electronig gydag amgryptiad priodol gan Swyddog Awdurdodedig fel y cymeradwywyd gan y cyflogwr. Ni dderbynnir gwybodaeth sy'n cael ei hanfon atom heb amgryptiad nac ychwaith gan unrhyw unigolyn arall nad yw'n Swyddog Awdurdodedig.

### Aelodau'r Cynllun

Gall aelodau roi data i ni mewn tair ffordd; yn ysgrifenedig, dros e-bost neu drwy uwchlwytho gwybodaeth ar ein porth hunanwasanaeth aelodau.

Rydym yn pwysleisio i aelodau y dylai unrhyw wybodaeth sy'n cael ei hanfon atom gael ei hanfon yn ddiogel. Rydym hefyd yn eu hannog i ddefnyddio'r porth aelodau gan mai dyma'r ffordd fwyaf diogel ac effeithlon o anfon data atom. Mewn rhai achosion, pan fydd gwybodaeth yn cael ei llwytho ar y porth aelodau, mae statws tasg yn cael ei ddiweddaru yn y system weinyddol, sy'n rhoi gwybod i'r tîm yn awtomatig i symud ymlaen â'r achos.

### Darparwyr gwasanaeth trydydd parti

Mae gennym nifer o gontractau/cytundebau ar waith gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti i'n helpu gyda'r nod o gyflawni data o'r safon uchaf. Mae diogelwch data a chytundebau rhannu gwybodaeth yn cael eu cynnwys fel rhan o gontract pob darparwr gwasanaeth. Mae mwy o wybodaeth isod am sut rydym yn gweithio gyda darparwyr trydydd parti.

### Cadw Data

Mae ein Polisi ar gadw data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data wrth brosesu data personol yn Atodiad A.

### Diogelu data'n ymwneud â gwybodaeth a rennir â chyflogwyr

Nid oes gofyniad o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 i reolwyr data fynd i berthnasau cytundebol ffurfiol gyda rheolwyr data eraill y maent yn rhannu data personol gyda nhw ac yn derbyn data personol ganddyn nhw.  Mae hyn felly'n berthnasol i ni a'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan. Nodir y broses y mae'n rhaid i ni a'n cyflogwyr ei defnyddio i reoli hyn yn Atodiad B.

# Sicrhau data amserol ac o ansawdd da

## Cyflogwyr a darparwyr cyflogau

Mae'n ofynnol bob amser i'n cyflogwyr ddefnyddio'r porth i-Connect i gyflwyno gwybodaeth. Mae i-Connect yn defnyddio nifer o weithdrefnau awtomatig sy'n golygu llai o amser gweinyddol i ni a'r cyflogwr. Caiff y wybodaeth ei huwchlwytho'n fisol. Cydnabyddir yn eang bod trosglwyddo data'n rheolaidd yn gwella ansawdd data'n sylweddol, a dyna pam ein bod wedi buddsoddi yn y pecyn hwn. Mae i-Connect hefyd yn cynnwys nifer o wiriadau awtomatig ar y data a ddarperir cyn iddo gael ei uwchlwytho i'r system weinyddol.

Gallai unrhyw gyflogwr, nad yw'n cyflwyno data drwy i-Connect pan fydd ar gael iddo, beryglu ansawdd y data. Fel y soniwyd eisoes, rhaid i bob cyflogwr ddefnyddio'r system hon felly ac mae'n bosib y codir tâl gweinyddu ar y cyflogwyr hynny nad ydynt yn ymgysylltu â'r system. Rydym yn monitro'r data a gyflwynir drwy i-Connect yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn cyflwyno eu data yn y ffordd hon ac yn brydlon. Mae gennym hefyd bolisi uwchgyfeirio ar wahân i gyflogwyr, fydd yn cael ei ddefnyddio i ymgysylltu â chyflogwyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn.

## Aelodau'r cynllun

Cynhelir gwiriadau amrywiol ar ddata gan aelodau yn cynnwys dilysu data sy'n cael ei gadw ar-lein gan aelodau a gwiriadau yn erbyn data a ddarperir dros e-bost neu'n ysgrifenedig - mae mwy o wybodaeth ar gael yn y tabl isod am y rheolyddion hyn.

## Gweithio gyda darparwyr trydydd parti

Rydym yn gweithio gyda nifer o ddarparwyr trydydd parti i'n cefnogi i fodloni ein hamcanion.  Mae defnyddio'r ffynonellau hyn i gael data yn rhan o'n gofyniad i fonitro data'r cynllun ac rydym yn defnyddio hyn i wirio cywirdeb y data wrth asesu hawliau buddion yr aelodau. Mae hefyd yn ein cefnogi yn ein hamcan cyffredinol i sicrhau bod y buddion cywir yn cael eu talu i'r bobl gywir ar yr amser cywir.  Felly rydym yn cael data ac yn ei ddefnyddio gan y ffynonellau a ganlyn:

### Cronfa Ddata Yswiriant Gwladol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gweinyddir y Gronfa Ddata Yswiriant Gwladol gan Awdurdod Cronfa Bensiynau De Swydd Efrog ar ran y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Fe'i datblygwyd i ganiatáu i awdurdodau gweinyddol Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol rannu data i atal dyblygu talu grantiau marwolaeth a dynodi gwasanaeth mewn Cynlluniau Pensiwn eraill a allai effeithio ar fuddion yn y Gronfa. Rydym yn defnyddio'r Gronfa Ddata Yswiriant Gwladol pan fo angen e.e. pan fydd grant marwolaeth yn daladwy, i ddynodi a yw rhywun yn gymwys am ad-daliadau a chyfanrediadau ac os yw cymhwyster "McCloud" yn cael ei effeithio.

### Gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith

Mae'r Gronfa Ddata Yswiriant Gwladol yn cysylltu'r proffil aelodaeth â gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yn caniatáu i rywun sy'n cofrestru marwolaeth ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau roi gwybod i wasanaethau eraill y llywodraeth a'r cyngor am y farwolaeth, yn cynnwys y Gronfa. Rydym yn lawrlwytho hysbysiadau gan y gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith bob dydd er mwyn sicrhau bod taliadau i aelodau sydd wedi marw'n dod i ben ar unwaith. Yn yr achosion hyn, nid oes angen copi o'r dystysgrif marwolaeth gan fod yr hysbysiad gan y gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yn hysbysiad swyddogol.

### Menter Genedlaethol Twyll

Mae'r Fenter Genedlaethol Twyll yn ymarfer sy'n cydweddu data electronig mewn cyrff sector cyhoeddus a phreifat, a rhyngddynt, i atal a chanfod twyll. Fel cyfranogwr, rydym yn cael adroddiad am 'achosion sy'n cyd-fynd' i'w hymchwilio, i gymryd camau adferol a diweddaru cofnodion fel bod angen.

### Gwasanaethau olrhain

Rydym yn defnyddio'r Adran Gwaith a Phensiynau i olrhain cyfeiriadau aelodau'r cynllun. Gwneir hyn fesul achos pan fo angen. Os byddwn angen cynnal ymarfer olrhain mawr, byddwn yn comisiynu darparwr trydydd parti i wneud hynny o ystyried cwmpas y gwaith.

### Sgrinio marwolaethau

Rydym yn comisiynu darparwr trydydd parti sy'n cynnal adolygiad misol o'n haelodau gohiriedig a phensiynwyr yn erbyn y gofrestr marwolaethau cenedlaethol. Pwrpas hyn yw

dynodi aelodau sydd wedi marw fel y gellir gwneud yr addasiadau priodol i'r buddion yn brydlon.

## Gwirio bodolaeth pensiynwyr tramor

Rydym yn penodi asiantaeth allanol arbenigol i gynnal gwiriadau bob tair blynedd i'n helpu i wybod pan na fydd gan bensiynwyr tramor bellach hawl i gael buddion.

## Monitro ac adolygu data: gweithgareddau glanhau data

Mae'r adran hon yn amlinellu ein prosesau mewnol glanhau data sy'n ymwneud â monitro ac adolygu data'r cynllun i sicrhau ei fod yn gywir, yn gyfredol ac mor gyflawn â phosibl. Rydym yn cadw cofnodion o'r gweithgareddau hyn a gynhelir yn cynnwys eu darganfyddiadau.

Rydym yn monitro ansawdd a phrydlondeb ein data yn y ffyrdd canlynol:

| Gweithgaredd / Categori'r data | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Glanhau data diwedd blwyddyn (rhan o baratoi at y Datganiad Buddion Blynyddol) | Mae adroddiadau'n cael eu llunio i gymharu cyfraniadau a gafwyd gan gyflogwyr yn erbyn y tâl ECGA ar ddiwedd blwyddyn i aelodau gweithredol, gan helpu i ddynodi camgymeriadau, yn cynnwys y rhai'n ymwneud â Thâl Pensiynadwy Tybiedig. Hefyd, mae adroddiadau "Gwall" a "Rhybudd" yn cael eu rhedeg ac ymatebir yn briodol iddynt. | Bob blwyddyn: Ebrill i Awst. Fodd bynnag, rydym yn gweithio tuag at lunio'r adroddiadau hyn bob mis |
| Adroddiadau cyflogau pensiynwyr | Cynhelir gwiriad rhwng faint o bensiwn sydd wedi'i gofnodi ar gyflog y pensiynwr a faint sydd yn y system weinyddu pensiynau. | Bob mis |
| Adolygu data a dderbynnir ar i-Connect | Cynhelir gwiriadau awtomatig ar y data sy'n cael ei dderbyn drwy i-Connect a holir y cyflogwr/darparwr cyflogau am unrhyw broblemau neu anghysondebau. | Bob mis |
| Adolygu prydlondeb rhai sy'n ymuno, gadael ac ymddeol fel rhan o'r broses uwchgyfeirio cyflogwyr. | Gan ddefnyddio ein model DPA/model uwchgyfeirio cyflogwyr, dynodir unrhyw dueddiadau adrodd hwyr yn seiliedig ar | Bob mis |

| | | |
|---|---|---|
| | sgoriau COG a chysylltir â'r cyflogwyr perthnasol i gytuno ar gynllun gwella. | |
| Sgorio data TPR | Rydym yn defnyddio dangosfwrdd ansawdd data'r meddalwedd gweinyddu pensiynau i asesu dau fesur ansawdd data'r TPR - data cyffredin a data sy'n benodol i'r cynllun. Rydym yn cael y sgoriau ar gyfer pob mesur bob mis fel y gallwn weithio'n barhaus ar wella'r sgoriau. Rydym yn rhoi gwybod i TPR am y sgoriau hyn bob blwyddyn. | Bob mis |
| Cysoni cyfraniadau | Rydym yn gwirio cyfaniadau cyflogwyr a gweithwyr yn erbyn y data sydd gennym ar y system gweinyddu pensiynau ac yn ymchwilio i unrhyw anghysondebau. | Bob mis |
| Ymgysylltu a hyfforddiant cyflogwyr | Mae gennym gyfoeth o ddeunyddiau a phecynnau offer i gefnogi ein cyflogwyr yn eu cyfrifoldebau yn cynnwys cyflwyno data'n gywir a phrydlon (amlinellir y deunyddiau hyn yn ein Strategaeth Weinyddu Pensiynau). | Parhaus |
| Dilysu data aelodau | Rydym yn gwirio'r data a roddir gan aelodau. Er enghraifft, rydym yn gwirio dyddiad geni a dyddiad priodi aelodau (os yw'n berthnasol) sydd ar y system weinyddu pensiynau yn erbyn eu tystysgrif geni/priodas cyn talu buddion. Amlinellir ein rheolyddion sy'n ymwneud â gwiriadau dilysu data aelodau eraill yn ein Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth. | Parhaus |

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglen cynyddu pensiynau | Rydym yn cynnal y broses cynyddu pensiynau yn y system Brawf ac yn rhedeg adroddiadau gwall ac yn ymdrin â phroblemau cyn ei gynnal yn y system Fyw. Cynhelir y cynnydd yn y pensiynau yn y systemau cyflogau pensiynwr a system gweinyddu pensiynau ac maent yn cael eu cymharu. Mae unrhyw anghysondebau'n cael eu datrys a'u haddasu ar y system cyflogau pensiynwyr os oes angen. | Bob blwyddyn |
| Gwiriadau cyfrifo buddion | Mae staff sydd wedi cymhwyso'n briodol yn cyfrifo buddion ac yn eu gwirio. Atgyfnerthir y rheolydd hwn drwy ddefnyddio "sefydlu sgiliau" ar y system weinyddu pensiynau. Mae hyn yn caniatáu i ddim ond staff cymwys penodol wirio rhai cyfrifiadau ac mae'n atal swyddogion rhag gwirio achos maen nhw wedi'i brosesu. | Bob dydd |
| Adroddiadau ymarferol | Mae adroddiadau dyddiol wedi'u sefydlu i sicrhau bod rhai prosesau sy'n dibynnu ar ddyddiad yn cael eu cynnal. Ymhlith enghreifftiau mae sefydlu nodyn atgoffa i drosi pensiynau tymor byr yn bensiwn hirdymor, gwirio cymhwyster parhaus/atal pensiynau plant, aelodau 75 oed a hŷn, ysgrifennu at aelodau gohiriedig sy'n nesáu at Oed Pensiwn y Wladwriaeth, ysgrifennu at aelodau ad-daliad wedi'i rewi. | Bob mis |

| | | |
|---|---|---|
| Aelodau'n gwirio eu hunain | Rydym yn annog aelodau i adolygu'r data a roddir mewn gohebiaeth sy'n cael ei hanfon atynt a'r hyn sydd yn y porth hunanwasanaeth aelodau ac i roi gwybod i ni am unrhyw anghysondebau. | Parhaus |
| Monitro DPA | Dim ond pan gawn ni ddata prydlon a chywir gan gyflogwyr y gallwn fodloni ein DPA 'cyffredinol'. Felly hefyd, dim ond pan fydd gennym ddata cywir eisoes y gallwn gyflawni ein mesurau mewnol a chyfreithiol. Felly, mae cyflawni perfformiad da yn gyson yn erbyn ein mesurau DPA yn arwydd o ddata o ansawdd da | Bob mis |
| Dangosfwrdd glanhau data Insights | Rydym yn defnyddio modiwl adrodd ychwanegol y meddalwedd pensiwn Insights i fonitro presenoldeb, cywirdeb a fformat eitemau data. Defnyddir Insights i'n cefnogi i lanhau data ar brosiectau mawr megis dangosfyrddau pensiwn hefyd. Mae hyn yn cynnwys gwirio a yw'r data'n gyflawn ac yn gyson a gwirio'r fformat:<br>• Cyflawn: mae data ym mhob maes disgwyliedig<br>• Cyson: er enghraifft, mae'r dyddiad ymuno cyn y dyddiad gadael<br>• Fformat: er enghraifft, dyddiadau, rhagddodiad YG fel y disgwyl | Bob wythnos / bob mis |

| | | |
|---|---|---|
| Gwiriadau ariannol: yn cynnwys mantoli arian yn erbyn y cyfriflyfr | Rydym yn adolygu'r holl daliadau i mewn ac allan o'r Gronfa'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu neilltuo i'r ganolfan gostau gywir.<br><br>Mae hyn yn cynnwys monitro misol a chodio cyfriflyfr priodol o'r holl incwm gan gynnwys arian a godiwyd yn wreiddiol fel arian amrywiol ar ôl ei dderbyn. | Parhaus |

## Mesur y Gronfa yn erbyn amcanion y Polisi

Byddwn yn defnyddio'r dulliau canlynol o fesur i fonitro ein perfformiad wrth gyflawni amcanion y Polisi hwn.

| Amcan | Dull o Fesur |
|---|---|
| Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw am aelodau a thrafodion i gynnal y nodau o sicrhau bod y buddion cywir yn cael eu talu i'r bobl gywir ar yr amser cywir | Sgoriau data cyffredin a data'n benodol i'r cynllun o 100%.<br><br>Nid yw'r sgoriau data cyffredin a data'n benodol i'r cynllun yn lleihau bob blwyddyn.<br><br>Cyflawnwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn 90% o achosion* (100% mewn perthynas â gofynion cyfreithiol).<br><br>Nid yw problemau'n ymwneud â data yn achos oedi, anghywirdeb, neu gam-adnabod sylweddol neu gymedrol wrth weinyddu pensiynau.<br><br>Mae'r holl ddata ar gael mewn pryd fel bod y Datganiadau Buddion Blynyddol yn cael eu cyhoeddi erbyn y terfyn amser statudol. |
| Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw am aelodau a thrafodion i gynnal y nodau o sicrhau bod rhwymedigaethau cyflogwyr yn cael eu cyfrifo'n gywir | Nid oes angen i Actwari'r Cynllun wneud unrhyw ragdybiaethau yn seiliedig ar ddata sydd ar goll neu ddata anghywir.<br><br>Ni ddynodwyd unrhyw wallau o ran rhwymedigaethau cyflogwyr. |
| Cael, storio, adolygu a throsglwyddo data'n ddiogel mewn ffordd sy'n effeithlon ac yn effeithiol o ran cost, gan ddefnyddio technoleg a phrosesau awtomatig yn briodol i gael gwerth am arian | Mae 100% y cyflogwyr yn defnyddio'r porth diogel i gyflogwyr i ddarparu ffurflenni data bob mis.<br><br>Mae 100% y data'n cael ei gyfnewid gyda thrydydd partïon drwy ddulliau diogel, y cytunwyd arnynt.<br><br>Nid oes unrhyw fynediad di-awdurdod at ddata na digwyddiadau seibr. |
| Cydymffurfio â gweithdrefnau diogelu data, cadw cofnodion a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud ag ansawdd data yn ogystal â cheisio cadw at ganllawiau perthnasol megis y rheiny gan y Rheoleiddiwr Pensiynau | Nid oes unrhyw fynediad diawdurdod at ddata na digwyddiadau seibr.<br><br>Tystiolaeth o gydymffurfiaeth â modiwlau monitro data a gwella/cadw cofnodion yng Nghod y Rheoleiddiwr Pensiynau. |

| | |
|---|---|
| | Sgoriau data cyffredin a data'n benodol i'r cynllun o 100%<br><br>Nid yw'r sgoriau data cyffredin a data'n benodol i'r cynllun yn lleihau bob blwyddyn<br><br>Cyflawnwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn 100% o achosion mewn perthynas â gofynion cyfreithiol |
| Sicrhau bod y rolau a chyfrifoldebau rhwng y Gronfa, cyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill o ran ansawdd data yn glir a'u bod yn cael eu deall | Mae'r Strategaeth Weinyddu Pensiynau'n nodi rolau a chyfrifoldebau<br><br>Mae gweithdrefnau uwchgyfeirio cyflogwyr ar waith a phan gânt eu defnyddio, mae gwelliannau i'w gweld ym mhrydlondeb a chywirdeb y data a gyflwynir<br><br>Arolygon bodlonrwydd blynyddol gyda chyflogwyr yn cyflawni sgôr o 90% mewn cwestiynau am ddeall eu cyfrifoldebau |
| Dynodi a datrys problemau ansawdd data'n gyflym a sicrhau bod camau ataliol yn cael eu rhoi ar waith fel bod angen llai o weithgareddau glanhau data yn y dyfodol | Cynllun Gwella Data ar waith, sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i ddangos y problemau data a ddynodwyd, eu bod wedi eu datrys yn gyflym a bod camau ataliol wedi cael eu rhoi ar waith |
| Sicrhau bod prosesau rheoli data'n cael eu cofnodi'n glir a'u hadolygu'n rheolaidd. | Mae'r holl brosesau rheoli data'n cael eu storio'n ddiogel ac mae gan yr holl staff priodol fynediad atynt. Mae'r holl brosesau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn a chedwir cofnod o'r adolygiad. |

## Cynllun Gwella Data

Mae gennym gynlluniau gwella data unigol ar gyfer gweithgareddau gwahanol, yn cynnwys glanhau data diwedd blwyddyn, ymholiadau'n codi o'r prisiad a Dangosfyrddau Pensiynau. Rydym yn defnyddio pecyn adrodd ar ddata ein darparwr meddalwedd i'n helpu i fonitro presenoldeb, ansawdd a fformat data ac mae hyn yn ein helpu i bennu pa gamau sydd angen eu cymryd yn y dyfodol fel rhan o weithgareddau gwella data penodol.

Yn dibynnu ar ganlyniad y pecyn adrodd ar ddata, byddwn yn llunio cynllun gwella data ar lefel uchel i nodi ein gweithgareddau gwella data cyffredinol sy'n ymwneud â phob maes

busnes y Gronfa pe byddem yn teimlo bod angen hyn i gefnogi â throsolwg a monitro cynnydd.

Rydym yn diweddaru'r Cynlluniau Gwella Data unigol yn barhaus wrth i broblemau ansawdd data gael eu nodi a chynnydd ei wneud i'w datrys.

## Risgiau Allweddol

Amlinellir y risgiau allweddol o ran darparu'r Polisi hwn isod. Bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau (neu'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau[6] ar ôl i'r swydd gael ei llenwi) a swyddogion eraill yn gweithio gyda'r Panel Ymgynghorol Pensiynau, Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau i fonitro'r risgiau hyn a risgiau allweddol eraill ac ystyried sut i ymateb iddynt.

- Gallai diffyg neu ostyngiad mewn adnoddau medrus yn y Gronfa, cyflogwyr neu ddarparwyr cyflogau arwain at ddiffyg pwyslais ar ansawdd data.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y cyrff sy'n cyflogi'n achosi straen ar gydymffurfiaeth a chyswllt cyflogwyr.
- Ffactorau allanol sylweddol, megis newid cenedlaethol, yn effeithio ar ofynion data a diogelwch y data sydd eisoes yn cael ei gadw (e.e. yr ymarfer casglu data McCloud)
- Methiant y cyflogwr i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol neu yn y fformat cywir gan arwain at gofnodion anghyflawn ac anghywir a allai gyfrannu at oedi a hawliadau buddion aelodau anghywir.
- Methu â chadw cofnodion digonol, gan arwain at ddata anghywir sy'n arwain at hawliadau buddion aelodau anghywir.
- Defnydd o argraffwyr / dosbarthwyr allanol yn arwain at wallau diffyg cyfateb data
- Methiant i gynnal cronfa ddata gyswllt y cyflogwr gan arwain at anfon gwybodaeth at y person anghywir
- Digwyddiad seibr yn arwain at golli, peryglu neu ddwyn data.

## Adrodd

Byddwn yn cynnwys trosolwg o'n perfformiad yn erbyn amcanion y Polisi hwn i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau bob blwyddyn (gan nodi y bydd rhai o'r mesurau hyn yn gorgyffwrdd â'n Strategaeth Weinyddu Pensiynau sy'n cael eu hadrodd yn barhaus i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau). Adroddir ar fesurau ansawdd data pellach megis ein sgoriau cyffredin a sgoriau penodol y cynllun yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac i'r Bwrdd Pensiynau bob blwyddyn yn y cyfarfod yn dilyn cyflwyno'r sgoriau i'r TPR. Hefyd, mae ansawdd data yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau.

Mae gennym hefyd weithdrefn ar wahân ar gyfer Cofnodi ac Adrodd am Achosion o Dor-Cyfraith/ Taliadau Hwyr o Gyfraniadau gan Gyflogwr. Felly, os na fyddwn yn cadw at unrhyw ofynion cyfreithiol o ran rheoli data'r cynllun, bydd y mater yn cael ei gofnodi ar ein cofnod

[6] Fe ddylid ystyried pob cyfeiriad at y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn y ddogfen hon fel Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau pan fydd y swydd honno wedi cael ei llenwi.

torri rheolau, a phan ystyrir eu bod yn arwyddocaol yn faterol, cânt eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Hefyd, os bydd mynediad diawdurdod at ddata personol yn digwydd ynghyd ag ystyried adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn unol â'n gweithdrefn ar gyfer Cofnodi ac Adrodd am Achosion o Dor-Cyfraith/ Taliadau Hwyr o Gyfraniadau gan Gyflogwr, byddwn yn cofnodi'r manylion ac os oes angen, yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r aelod(au).

## Cymeradwyo, adolygu ac ymgynghori

Cymeradwywyd y Polisi hwn gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau ar 19 Mawrth 2025. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol o leiaf unwaith bob tair blynedd neu'n gynharach os yw'r trefniadau rheoli ansawdd data neu faterion eraill sydd wedi eu cynnwys ynddo yn teilyngu ailystyried, gan gynnwys a oes unrhyw newidiadau i'r CPLlL neu Reoliadau neu Ganllawiau perthnasol eraill sydd angen eu hystyried.

Wrth baratoi a diweddaru'r Polisi hwn, ac eithrio mewn perthynas â newidiadau bach, fe wnaethom ymgynghori â chyflogwyr perthnasol, aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr ar Fwrdd Pensiynau Clwyd ac unigolion eraill a ystyriwyd yn briodol.

## Rhagor o Wybodaeth

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am unrhyw beth yn y Polisi Ansawdd Data hwn neu'n gysylltiedig â'r Polisi hwn, cysylltwch â:

Karen Williams, Rheolwr Gweinyddu Pensiynau, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: **Karen.Williams@siryfflint.gov.uk**

Telephone: 01792 002129

# Atodiad A: Rheolyddion data

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018, byddwn ni a'r Cyflogwr, ar wahân i'w gilydd, yn hysbysu'r aelodau o'u rhesymau dros brosesu eu data personol ac yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod aelodau'n deall sut y bydd eu data personol yn cael ei brosesu ym mhob achos gennym ni neu'r Cyflogwr (fel sy'n berthnasol). Bydd hysbysiad preifatrwydd y Cyflogwr i aelodau yn eu hysbysu y bydd eu data personol yn cael ei roi i ni a bydd copi o'r hysbysiad hwnnw yn cael ei roi i ni ar gais.

Bydd y Cyflogwr yn rhoi gwybod i ni os caiff gwall ei ganfod yn nata personol yr aelodau y mae'n rheolwr arno ac a roddwyd i ni, i sicrhau ein bod ninnau wedyn yn gallu cywiro ein cofnodion.

Os ydyn ni neu'r Cyflogwr yn penodi ymgynghorwyr proffesiynol, gweinyddwyr trydydd parti neu endid arall sy'n darparu gwasanaethau eraill yn cynnwys trosglwyddo data aelodau, bydd y trydydd partïon hynny yn broseswyr data neu'n rheolwyr data yn eu hawl eu hunain. Byddwn ni neu'r Cyflogwr (fel sy'n berthnasol) yn cydymffurfio gyda'i rwymedigaethau ei hun yn unol â'r Gyfraith Diogelu Data (yn enwedig, drwy sicrhau bod unrhyw endid sy'n derbyn data personol aelodau gan y Gronfa hefyd yn cydymffurfio gyda'r Gyfraith Diogelu Data) a bydd yn sicrhau nad oes unrhyw beth o ran ymgysylltu rhyngom ni neu'r Cyflogwr (fel sy'n berthnasol) a thrydydd parti yn mynd yn groes i'r Gyfraith Diogelu Data.

Rydym yn cadarnhau ein bod yn deall ein rhwymedigaethau o dan y Gyfraith Diogelu Data os bydd achos o dor-cyfraith mewn perthynas â data personol, achos o brosesu data yn anghyfreithlon neu heb awdurdod, colli neu ddinistrio data neu ddifrod i ddata personol yr aelodau, yn cynnwys (lle bo'r angen) dyletswydd i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a / neu'r aelod (au).

# Atodiad B: Polisi Cadw Data Personol

## Cyflwyniad

Fel rheolyddion data, yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae'n rhaid i ni gydymffurfio ag egwyddorion cadw data i leiafswm a chyfyngiadau storio'r data. Dylai'r data personol rydym ni'n ei brosesu:

- fod yn ddigonol, perthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben y caiff ei brosesu; ac
- ni ddylai gael ei gadw ar ffurf sy'n golygu bod modd adnabod gwrthrych y data am gyfnod hwy na'r angen at ddibenion prosesu'r data personol

Mae'n rhaid i ni gadw rhai cofnodion (ar bapur neu ar ffurf electronig) am gyfnodau amrywiol oherwydd:

- rhwymedigaeth statudol i wneud hynny; a/neu
- efallai bod yr wybodaeth a geir yn y cofnodion hynny yn angenrheidiol ar gyfer y dyfodol (e.e. efallai y bydd cwestiynau yn codi ynghylch cyfrifiad buddion a dalwyd yn y gorffennol ac felly mae'n rhaid cadw data a all fod yn berthnasol i hawliad cyfreithiol posibl hyd nes mae'r cyfnod y mae modd gwneud yr hawliad hwnnw wedi dod i ben).

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi'r mesurau a ddefnyddir gennym i gydymffurfio ag egwyddorion cadw data i leiafswm a chyfyngiadau storio'r data personol a gedwir gennym.

## Y mathau o ddata personol a gedwir gennym

Rydym yn cadw ac yn prosesu'r mathau canlynol o ddata personol yn ymwneud ag aelodau'r Gronfa:

- Manylion cyswllt yn cynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost
- Manylion adnabyddadwy, fel dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol a rhifau gweithiwr ac aelodaeth
- Gwybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo ac asesu'r hawl i fuddion, e.e. hyd y cyfnod o wasanaeth neu aelodaeth a gwybodaeth am y cyflog
- Gwybodaeth ariannol sydd ei hangen i gyfrifo neu dalu buddion e.e. manylion cyfrif banc a threth
- Gwybodaeth am deulu'r Aelod, dibynyddion neu amgylchiadau personol e.e. statws priodasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i ddosbarthu a dyrannu buddion sy'n daladwy ar ôl marwolaeth
- Gwybodaeth am iechyd yr Aelod, er enghraifft, i asesu cymhwyster am fuddion sy'n daladwy pan fydd iechyd rhywun yn wael, neu lle mae iechyd Aelod yn berthnasol i hawliad am fuddion yn dilyn marwolaeth Aelod o'r Gronfa
- Gwybodaeth am euogfarnau troseddol os yw hynny wedi arwain at fod mewn dyled i'r cyflogwr neu'r Gronfa ac y gall y cyflogwr neu'r Gronfa gael ei ad-dalu drwy fuddion yr aelod hwnnw

Rydym yn cadw ac yn prosesu'r mathau canlynol o ddata personol yn ymwneud ag aelodau'r Gronfa:

- Manylion cyswllt yn cynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost
- Manylion adnabyddadwy, yn cynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol
- Gwybodaeth am deulu'r Buddiolwr, dibynyddion neu amgylchiadau personol e.e. statws priodasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i ddosbarthu a dyrannu buddion sy'n daladwy ar ôl marwolaeth y Buddiolwr
- Gwybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo ac asesu'r hawl i fuddion, e.e. hyd y cyfnod o wasanaeth neu aelodaeth a gwybodaeth am y cyflog (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Aelod dan sylw)
- Gwybodaeth ariannol sydd ei hangen i gyfrifo neu dalu buddion e.e. manylion cyfrif banc a threth

## Cyfnodau cadw data personol

Wrth lunio ein polisi ar gadw data personol rydym wedi ystyried y canllawiau ar gadw data personol fel y nodir yn / gan:

- Y Gymdeithas Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth
- Yr Archifau Gwladol
- Llawlyfr cydymffurfiaeth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi CH15400
- Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar reoli cofnodion a gyhoeddwyd dan Aran 46 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gadw data; a
- Cod Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gofyn i ni beidio â chadw data personol am gyfnodau hwy na'r angen er mwyn cyflawni'r dibenion y caiff ei brosesu. O ystyried natur hirdymor pensiynau, mae arnom angen sicrhau bod data personol yn cael ei gadw er mwyn:

- cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol o ran talu pensiynau o'r Gronfa; ac
- ymateb i unrhyw gwestiwn neu gŵyn sy'n codi ynglŷn â gweinyddu'r Gronfa

Byddwn yn cadw data personol hyd at **beth bynnag sydd hiraf**:

- y cyfnod y bydd yr Aelod (neu unrhyw fuddiolwr sy'n derbyn buddion ar ôl marwolaeth yr Aelod) â hawl i fuddion o'r Gronfa ac am gyfnod o 15 mlynedd ar ôl i'r buddion hynny ddod i ben;
- 100 mlynedd o ddyddiad geni'r aelod;
- 100 mlynedd o ddyddiad geni unrhyw fuddiolwr a gafodd fuddion o'r Gronfa ar ôl marwolaeth yr Aelod.

Yn ystod unrhyw gyfnod ble rydym yn cadw data personol, byddwn yn cadw'r data personol hwnnw'n gyfredol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data gwallus naill ai'n cael

ei ddileu neu'n cael ei gywiro ar unwaith. Byddwn yn adolygu'r data personol sydd ar gadw gennym yn rheolaidd ac yn ystyried a oes angen ei gadw; byddwn yn dinistrio unrhyw ddata personol nad oes ei angen.

## Hawliau Aelodau a Buddiolwyr

Mae buddiolwyr yn rhan o gategori ehangach o bobl sy'n derbyn buddion gan y Gronfa, e.e. yr aelod gweithredol/gohiriedig/pensiynwr, priod/plentyn(plant)/dibynyddion yr Aelod a all dderbyn buddion o'r Gronfa yn dilyn marwolaeth yr Aelod. Mae gan Aelodau'r Gronfa a Buddiolwyr yr hawl i weld a chael copi o'r data personol a gedwir amdanynt gennym ac i ofyn i ni gywiro eu data personol os oes unrhyw wall neu os oes angen ei ddiweddaru neu os yw'n anghyflawn.

Dan amgylchiadau penodol, mae gan Aelodau/Buddiolwyr yr hawl:

- i wrthod rhoi caniatâd i ni brosesu eu data personol;
- i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eu data personol nes bydd unrhyw wallau wedi'u cywiro;
- i ofyn i ni drosglwyddo eu data personol; neu
- i ofyn i ni ddileu eu data personol.

Os yw arfer hawliau Aelod/Buddiolwr yn ein hatal rhag talu neu barhau i dalu pensiwn o'r Gronfa, byddwn yn ystyried cadw fersiwn gryno o ddata personol yr Aelod/Buddiolwr hwnnw er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

## Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Gyngor Sir y Fflint yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa. Rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar wahân ar gyfer cyflogwyr eraill sy'n rhan o'r Gronfa ynghylch ein disgwyliadau o ran cadw data personol sydd ei angen arnom i weinyddu'r Gronfa.  Mae'r canllawiau hynny'n cynnwys polisi cadw data awgrymedig y mae modd i gyflogwyr ei fabwysiadu mewn perthynas â'u cyfranogiad yn y Gronfa.

**cronfabensiynauclwyd.org.uk**

**Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5**

**3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.